| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| **DYDDIAD** | **13.11.14** |
| **PWNC** | **Ymchwiliad Craffu Caffael Cynaladwy** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Ymateb i gwestiynau penodol sydd yn gysylltiedig â'r argymhellion** |
| **AELOD CABINET/ AWDUR** | **Cyng. John Wynn Jones/Geraint George** |

## 1 CEFNDIR

1.1 Mae'r prosiect "Cryfhau Gwytnwch Busnesau'r Sir a Chadw'r Budd yn Lleol" yn un o flaenoriaethau'r Cyngor - gweler Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-17. Mae'r prosiect yn anelu i wella perfformiad caffael y Cyngor a chyfrannu'n benodol at y nod o warchod a chreu swyddi ar gyfer pobl Gwynedd a galluogi mwy o fusnesau lleol i fod yn gystadleuol ac i oroesi.

1.2 Adroddwyd ar gynnydd y prosiect i aelodau'r ymchwiliad craffu ar 30/09/14 a nodwyd mai'r flaenoriaeth o ran gwella caffael yw newid o'r trefniadau cyfredol o gaffael fesul adran i drefniadau caffael ar sail categorïau gwariant. Mae hyn yn newid mawr bydd yn gofyn am gryfhau sgiliau a threfniadau a sicrhau bod y ffocws ar:-

- Dealltwriaeth am ac ymgysylltiad gyda'r farchnad gyflenwi
- Dealltwriaeth o anghenion gwasanaethau ar draws y Cyngor a chynlluniau i gyfarfod â gofynion
- Cysylltiad rhwng strategaeth, comisiynu, tendro, contractio a rheoli contractau
- Sylw i reoli contractau a gyrru parhaus am werth am arian
- Sylw penodol i ddatblygiad sgiliau staff
- Annog a gwerthfawrogi blaengaredd yn y maes caffael

**Cwestiynau penodol -**

1 *Beth yw uchelgais y Cyngor ym maes caffael cynaliadwy a datblygu polisi, ac a oes canllawiau syml a chlir i staff i wireddu'r uchelgais ar draws y Cyngor ?*

Mae'r canlyniadau allweddol fel a ganlyn :-

| **Amcanion** | **Canlyniadau** | **Mesurau Perfformiad** | **14/15** | **15/16/** | **16/17** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynyddu'r canran o wariant gyda busnesau Gwynedd | Cynnal a/neu gynyddu gwariant gyda busnesau Gwynedd | % gwariant gyda busnesau Gwynedd | ↑ | 40-45% | 40-45% |
| Diogelu swyddi | Cynnal Swyddi | Nifer swyddi wedi eu diogelu o fewn busnesau'r sir o ganlyniad i weithgaredd Caffael y Cyngor | I'w sefydlu | I'w sefydlu | I'w sefydlu |
| Creu swyddi newydd | Cynyddu Swyddi | Nifer swyddi wedi eu creu o fewn busnesau'r sir o ganlyniad i weithgaredd Caffael y Cyngor | I'w sefydlu | I'w sefydlu | I'w sefydlu |
| Lleihau cost cytundebau er cyfrannu at dargedau arbedion | Trigolion yn cael yr un/neu well gwasanaeth | Arbedion ariannol caffael | £120,562 | £120,562 * | £120,652* |

* i'w cadarnhau

Mi fydd canllawiau a threfniadau perthnasol yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r newid yn ein strwythur caffael

2 *A yw'r trefniadau caffael yn addas i gyflawni uchelgais y Cyngor ym maes caffael cynaliadwy ac a oes ymrwymiad i'r trefniadau hynny ar y lefel uchaf ?*

Pwrpas y newid yn ein trefniadau yw cryfhau ein perfformiad a sicrhau cyswllt clir rhwng uchelgais, polisi a gweithrediad. Mae "Cadw'r Budd yn Lleol" yn un o flaenoriaethau'r Cyngor ac yn cadarnhau ymrwymiad ar y lefel uchaf. Mae'r Polisi Caffael Cynaladwy a'r teclynnau caffael cynaladwy cyfredol yn hwyluso cyflawni o uchelgais caffael y Cyngor.

Yn ogystal mae aelod o'r tîm caffael corfforaethol yn cefnogi gwasanaethau i wireddu buddion ar gytundebau adeiladu mawr.

3 *Pa drefniadau sydd mewn lle i rannu arferion da a chydweithio yn y maes caffael ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau'r buddion gorau ?*

Dyma un o amcanion y trefniadau "rheolaeth categori" newydd. Mae'r trefniadau cyfredol angen gwelliant.

4 *A oes cofrestr gyflawn o holl gyfleoedd tendro'r Cyngor er mwyn cynnig gwell trosolwg o'r maes wedi ei lunio ?*

Oes, mae rhaglen gaffael y Cyngor ar ein safle we gyda swyddog penodol yn gyfrifol am sicrhau bod y wybodaeth mor gyflawn â phosib. Mae ymrwymiad y gwasanaethau i baratoi a rhannu'r wybodaeth angen gwella i'r gofrestr fod yn gyflawn.

5 *Pa fesuryddion addas ac ystyron sydd wedi eu datblygu er mwyn mesur effaith ariannol gwariant y Cyngor a'r effaith ar drigolion Gwynedd ?*

Gweler yr ymateb i gwestiwn 1

6 *A oes trefniadau hyfforddiant addas i staff sy'n ymwneud â chaffael i sicrhau dealltwriaeth iawn o'r ymrwymiad, cydymffurfiaeth weithredol a gwell adnabyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael er budd trigolion Gwynedd.*

Mi fydd rhaglen benodol yn cael ei ddatblygu a'i ddarparu fel rhan o'r cynllun i newid ein trefniadau cyfredol. Mae'r rhaglen hyfforddiant cyfredol yn cynnwys dau gwrs ar fatrics hyfforddi'r Cyngor sef, prynu a chontractau sylfaenol ac uwch. Prif amcanion y cyrsiau yw gwella dealltwriaeth o'r trefniadau caffael gan hefyd dynnu sylw a rhoi trosolwg o'r polisïau caffael. (Arwel ap i lenwi plîs)

7 *I ba raddau mae rôl yr Uned Caffael Gorfforaethol o fewn trefniadau caffael y Cyngor wedi cael ei diffinio'n fwy eglur er mwyn sicrhau'r gorau o'r adnodd a chryfhau trefniadau caffael y Cyngor ?*

Mi fydd hyn yn digwydd wrth newid ein trefniadau caffael

8 *Beth yw'r dystiolaeth mai'r trefniadau datganoledig cyfredol y Cyngor yw'r trefniadau mwyaf addas i wireddu uchelgais y Cyngor yn y maes ?*

Mae'r prosiect Cadw'r Budd yn gweithredu i newid y trefniadau.

9 *Pa ystyriaeth bellach sydd wedi ei roi i'r defnydd o'r Gymraeg o fewn trefniadau caffael y Cyngor yng nghyd-destun y ddogfen Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Iaith Gymraeg a chynnwys unrhyw argymhellion yn y Strategaeth Caffael a'r Polisi Caffael Cynaliadwy newydd a datblygu trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth ?*

Mae'r Strategaeth Caffael yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gyda'r nod o gyhoeddi canol Rhagfyr. Bydd y strategaeth yn amlygu amcanion y Cyngor i wella trefniadau a pherfformiad caffael yn seiliedig ar drefniadau rheolaeth categori.

Mi fyddwn yn ystyried ein gofynion iaith fel rhan o'r broses o ddatblygu a chytuno'r strategaeth.